# Cystadleuaeth Barddoniaeth Divine 2014

**Meddyliwch gymaint rych chi'n mwynhau siocled… yna dychmygwch pa fath o brofiad fyddai cyfarfod â ffermwr coco o Ghana - un o'r bobl sydd, trwy eu gwaith caled, yn ei gwneud hi'n bosibl i chi fwynhau eich hoff beth blasus!**

Beth fyddai'r sgwrs? Byddech chi'n holi hi neu fe am eu bywyd, teulu, gobeithion ac ofnau? Am y ffermydd coco neu sut mae coco'n tyfu? Falle fyddech am ddweud cymaint rych chi a'ch ffrindiau'n hoffi siocled ac am eich bywyd chi yng Nghymru. Byddech chi'n dweud diolch?


Defnyddiwch eich dychymyg. Gallech fod yn cwrdd â'r ffermwr coco ar fferm yn Ghana, neu yma yng Nghymru gyda'r ffermwyr ar ymweliad ar eu taith gyntaf allan o'u pentref. Trowch y cyfarfod rhyfeddol yma yn gerdd…

**Aneirin Karadog**, Bardd Plant Cymru, yw'r beirniad eleni, a meddai:
'Mae'n fraint cael beirniadu cystadleuaeth sydd mor bwysig ei neges sydd hefyd yn gyfle i ganfod beirdd mawr y dyfodol. Ac wrth gwrs,drwy gefnogaeth Divine a Masnach Deg mae'r cyfuniad o siocled a barddoniaeth yn sicr o ysbrydoli'.



Am fwy o fanylion ewch i www.cymorthcristnogol.org.uk lle gwelir y telerau a'r amodau llawn ynghyd â fideos o'r cerddi buddugol llynedd.
Ewch i **divinechocolate.com/poetry** i gystadlu yn Saesneg.

**ENNILL!**
Siocled Divine, tocyn llyfrau, nwyddau Cymorth Cristnogol.
Bydd y cerddi buddugol yn cael eu darllen ar fideo gan y beirniad!




Trefnir Cystadleuaeth Barddoniaeth Divine mewn partneriaeth â Cymorth Cristnogol.

# Cystadleuaeth Barddoniaeth Divine 2014







**Mae cystadleuaeth Barddoniaeth Divine, sydd wedi ei threfnu mewn partneriaeth â CC, yn rhoi'r cyfle i athrawon i edrych mewn dyfnder ar faterion masnach deg yn y dosbarth, gan gynnig ffyrdd creadigol i bobl ifanc ymateb a mynegi eu syniadau.**

## SYLWADAU!

- Dylai pob cerdd ein cyrraedd erbyn **30 Ebrill 2014**
- Yn Gymraeg, mae dau gategori oedran 7-11 (cyn), 11-16 (uwch). Bydd gan bob categori enillydd ac ail (os yw'r beirniad yn caniatáu)
- Rhaid i bob cerdd gadw at y thema. Bob blwyddyn bu'n rhaid gwrthod cerddi da oherwydd nad oeddent wedi dilyn y thema
- Anogwch y disgyblion i feddwl y tu hwnt i'r ystrydebau arferol am wledydd sy'n datblygu. Mae Masnach Deg yn ymwneud â chyfiawnder a grymuso
- Dim ond y gerdd fydd yn cael ei ystyried gan y beirniaid. Ni fyddant yn ystyried unrhyw gelfwaith.

**Sut i gystadlu:** Am amodau a thelerau llawn, cyfarwyddiau ar y thema eleni, a gwybodaeth am y gwobrau ewch i www.cymorthcristnogol.org.uk

**Anfon cerddi trwy e-bost:** Rhaid i bob cerdd a ddaw trwy e-bost gynnwys hefyd y ffurflen gellir ei llenwi ar lein. E-bostiwch: mdefis@cymorth-cristnogol.org

**Anfon cerddi trwy'r post**: Os ydych yn athro/athrawes sy'n postio nifer o gerddi, llenwch y ffurflen isod a'i dychwelyd gyda'r cerddi at: **Cymorth Cristnogol, 5 Heol yr Orsaf, Radyr, Caerdydd CF15 8AA**




**FFURFLEN GYSTADLU**

Enw'r athro/athrawes: ……………………………………………………………………………………………

Swydd (h.y. tiwtor dosbarth/AG/Cym/Saesneg)……………………………………………………………

Cyfeiriad ebost: …………………………………………………………………………………………………

Enw a chyfeiriad yr ysgol: ……………………………………………………………………………………

…………………………………………………………………………………………………………………….

Oedran: 7-11 (cyn), 11-16 (uwch) ……………………………………………………………………………

Nifer o gerddi a anfonwyd: ……………………………………………………………………………………

☐ Ticiwch y blwch os nad ydych am dderbyn deunydd addysg o bryd i'w gilydd gan Cymorth Cristnogol neu Divine Chocolate.